Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

Adroddiad (CA (3) 05-10)

Dyddiad: 11 Chwefror 2010
Amser: 9.00am
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 4, Tŷ Hywel

CYNNWYS

Cyfarfu'r Pwyllgor ar 11 Chwefror 2010. Roedd yr Aelodau Pwyllgor canlynol yn bresennol yn y cyfarfod: Janet Ryder AC, Mike German AC, William Graham AC, Alun Davies AC a Rhodri Morgan AC. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

Mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reolau Sefydlog 15.2 a 15.3

Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

CA387 – Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) (Diwygio) 2010
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 2 Chwefror 2010. Fe'u gosodwyd ar 3 Chwefror 2010. Yn dod i rym ar 1 Ebrill 2010

CA388 – Rheoliadau Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau (Cymru) (Diwygio) 2010
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 2 Chwefror 2010. Fe'u gosodwyd ar 3 Chwefror 2010. Yn dod i rym ar 1 Ebrill 2010

CA389 - Gorchymyn Consesiynau Teithio (Gwasanaethau Cymwys) (Diwygio) 2010
Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 2 Chwefror 2010. Fe'i gosodwyd ar 3 Chwefror 2010. Yn dod i rym ar 1 Ebrill 2010

Unrhyw faterion eraill

Ymchwiliadau'r Pwyllgor : Ymchwiliad i'r datblygiadau yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan gynnwys Eithriadau i Faterion

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Mark Isherwood AC, Cadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5, a thystiolaeth ar wahân gan Phil Jarrold, Dirprwy Brif Weithredwr Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Michelle Matherton, yr Uwch Swyddog Polisi.

Cytunodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i ystyried a fyddai'n bosibl iddo ddarparu gwybodaeth bellach o ran pryd roedd cymhlethdod Atodlen 5 wedi ei gwneud yn anodd iddynt gynghori'r aelodau sy'n perthyn i'r Cyngor a oedd pwerau'n gorwedd gyda'r Cynulliad Cenedlaethol ynteu'n rhywle arall.

Ymchwiliadau'r Pwyllgor – gwybodaeth ychwanegol

Nododd yr Aelodau y dystiolaeth ychwanegol a roddodd Mr Dewi Llyr Jones, Darlithydd yn y Gyfraith (Prifysgol Bangor) ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor i Fonitro canlyniadau Adroddiadau'r Pwyllgor ar Offerynnau Statudol a thystiolaeth ychwanegol gan Mr Alan Trench, Uned y Cyfansoddiad, yr Ysgol Polisi Cyhoeddus (Coleg Prifysgol Llundain) i'r Ymchwiliad i'r Datblygiadau yn Atodlen 5.

Gofynnodd y Pwyllgor i staff y Cynulliad roi gwybodaeth bellach iddo yn deillio o'r ddau bapur hyn.

Gohebiaeth y Pwyllgor: Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2007

Yn dilyn gohebiaeth gynharach, yn ymwneud â phryd y bydd rheoliadau sy'n deillio o'r Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2007 yn debygol o gael eu cyflwyno, roedd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi darparu copïau drafft o'r rheoliadau dan sylw ac y mae'n ymgynghori arnynt ar hyn o bryd.

Gan mai'r Rheoliadau hyn oedd yr offeryn statudol mwyaf o sylwedd yn deillio o Fesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2007, penderfynodd y Pwyllgor dynnu sylw'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol atynt fel y gallai ystyried trefniadau craffu priodol.

Mesur Arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru) (Cyfnod 3) – y wybodaeth ddiweddaraf am argymhellion y Pwyllgor

Clywodd yr Aelodau y wybodaeth ddiweddaraf am yr argymhellion a wnaeth y Pwyllgor yn ei Adroddiad ar y Mesur Arfaethedig ynghylch y Diwydiant Cig Coch (Cymru). Roedd y Llywodraeth wedi cyflwyno 11 argymhelliad i'r Mesur, gydag argymhellion 10 ac 11 yn gweithredu argymhelliad 3 y Pwyllgor. Sylwodd yr Aelodau nad oedd diwygiadau gan y Llywodraeth yn mynd i'r afael ag argymhellion 2 a 4 yn adroddiad y Pwyllgor.

Y Mesur Seneddol ynghylch Rheoli Llifogydd a Dŵr: cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor

Nododd yr Aelodau fod adroddiad y Pwyllgor ar y Mesur Seneddol ynghylch Rheoli Llifogydd a Dŵr wedi'i gyhoeddi ar 9 Chwefror 2010.

Yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi) penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod i drafod y dystiolaeth a gyflwynwyd hyd yma ar gyfer yr Ymchwiliad i'r Datblygiadau yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan gynnwys Eithriadau i Faterion.

Janet Ryder AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

11 Chwefror 2010